## Ser màs isel ac uchel

ELYSE ‘Dwi ‘di eu gweld nhw’n fyw.

SOPHIE Lightning Jelly? Drïes i gal tocynne ond o’n nhw ‘di gwerthu mas. Wy’n dwli ar y gân *Magnetic Custard*.

ELYSE A fi! Elyse ‘dw i, gyda llaw.

SOPHIE Sophie. O ble wyt ti’n dod?

ELYSE Caernarfon.

ADA Dadansoddi…Rwyt ti’n dod o fol seren.

ELYSE Be ‘di hwnna?

SOPHIE ‘Mond ryw app dwl wnes i ei lawrlwytho.

ADA Mae egni seren yn cael ei greu gan adwaith thermoniwclear o’r enw ymasiad. Mae hyn yn cael ei achosi gan atomau’n cael eu gwthio at ei gilydd gan wasgedd a thymheredd uchel i greu atomau mwy. Yna, mae’r atomau mwy yma’n cael eu gwthio at ei gilydd i wneud elfennau mwy a mwy fyth. Tra bod yr ymasiad egni o du fewn i’r seren yn ehangu allan, mae'r grym disgyrchiant tu allan i’r seren yn ei gywasgu. Mae’r ddau rym yn gwthio’n erbyn ei gilydd ar raddfa hafal a chytbwys, sy’n cadw’r seren yn sefydlog.

SOPHIE Sori Ada, ond wy’n trio ca’l sgwrs ‘da rhywun fan hyn.

ADA Mae’r ymasiad o fewn y seren yn creu elfennau newydd - y mwyaf yw maint y seren, y mwyaf yw’r elfennau mae’n gallu eu creu.

Yn ystod cyfnod terfynol bywyd seren, mae craidd gorgawr yn cwympo, ac mae’n mynd mewn i uwchnofa. Mae hyn yn rhyddhau elfennau mawr i’r gofod.

 © Hawlfraint BBC

Mae pob mater yn y bydysawd yn seiliedig ar y cysyniad yma. Ry'n ni 'gyd yn llwch gofod. Mae popeth sy'n bodoli yn llwch gofod.

SOPHIE Wnei di hasti 'da hyn Ada?

ADA SIARAD YN HYNOD O GYFLYM

...gan arwain at ddwy ferch yn siarad mewn gorsaf bws.

ELYSE Rŵan, bo hi 'di gorffen, o lle ti'n dod?

ADA Dadansoddi… Rwyt ti'n dod o fol seren.


© Hawlfraint BBC